**Crynodeb Cwricwlwm i Gymru Ysgol Gymraeg Pontardawe**

# Trysorau Tawe




Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-greu drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a bydd yn bodloni'r gofyniad canllawiau Cwricwlwm i Gymru.

## Ein Hysgol

Sefydlwyd yr ysgol yn 1969 sydd yn cynnig addysg Gymraeg i deuluoedd Cymraeg o bob cefndir ym Mhontardawe a'i thalgylch cyfagos. Mae gan yr ysgol ethos cymunedol sydd yn hapus, cyfeillgar, gofalgar a chefnogol. Mae trefniadau gadarn yr ysgol am wrando ac ymateb i lais disgyblion yn golygu eu bod yn dylanwadu ar yr hyn maent am ei ddysgu a dewis yr adnoddau sy'n eu cefnogi i ddysgu hyd orau eu gallu yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol.

## Ein Gweledigaeth

Rydym fel ysgol am i bob aelod o'n teulu dderbyn yr addysg orau mewn awyrgylch cartrefol a diogel. Mae newid mawr ym myd addysg gyda'r cwricwlwm newydd ac anelwn i gyflwyno mewn modd hygyrch, cyffrous a gwybodus sydd yn datblygu'r plentyn cyflawn. '*Trysorau Tawe*' yw enw ein cwricwlwm sy'n unigryw i blant ein hysgol. Cwricwlwm fydd yn hybu sgiliau cydlynol, blaengar ac ystyrlon ar draws pob maes dysgu a phrofiad gyda'r pedwar diben yn wraidd i'r gwaith.


## Ein Gwerthoedd

Ein gwerthoedd sy'n ein harwain yn ein bywyd o ddydd i ddydd yn yr ysgol. Credwn mewn:
*gonestrwydd, cwrteisi a pharch tuag at eraill
*disgwyliadau uchel gan bawb
*cyfle cyfartal i bawb
*balchder yn ein hiaith, diwylliant a'n ardal leol
*hunan ddisgyblaeth
*dyfalbarhad ac ymroddiad i'n gwaith



## Ein cwricwlwm cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Cod ADY




## Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

## Meysydd Dysgu a Phrofiad

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad o:

⇒ Celfyddydau Mynegiannol – Bydd dysgwyr yn archwilio celf, cerddoriaeth, drama, dawns a ffilm a chyfryngau digidol.


⇒ Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Bydd dysgwyr yn datblygu Cymraeg, Saesneg ac iaith ryngwladol. Bydd Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg yn cael ei chyflwyno ym mlwyddyn 6 fel trydedd iaith.

⇒ Mathemateg a Rhifedd – Bydd y 5 hyfedredd yn arwain addysgeg yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn

⇒ Gwyddoniaeth a Thechnoleg – Bydd dysgwyr yn archwilio Bioleg, Ffiseg, Cemeg, Peirianneg a Chyfrifiadureg

⇒ Dyniaethau – Bydd dysgwyr yn archwilio Hanes, Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol


⇒ Iechyd a Lles – Bydd dysgwyr yn archwilio addysg gorfforol, coginio, deall emosiynau, deall perthnasoedd iach a deall gwneud dewisiadau iach ar gyfer ffordd iach o fyw.







**Dysgu, Cynnydd ac Asesu**

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol.




Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio'r cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn gweithredu system asesu mewnol '*Llwybr Llwyddiant'* er mwyn gweld cynnydd pob dysgwr.

Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol. Bydd cydlyniad mewn Dysgu, Dilyniant ac Asesu yn cael ei ddatblygu trwy bolisi, cynllunio tymor hir, canolig a byr yn ogystal â chyd-ddealltwriaeth o ddilyniant mewn dysgu ar draws ysgolion clwstwr Ystalyfera. Bydd y Camau Cynnydd yn cael eu pennu yn 5, 8, 11, 14 a 16 oed a byddant i'w gweld ar ffurf disgrifiadau dysgu a fydd yn berthnasol yn fras i'r disgwyliadau ar yr adegau hynny. Bydd y rhain yn helpu dysgwyr, athrawon, rhieni a gofalwyr i ddeall os yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn briodol.




**Cymraeg a Saesneg**

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg bydd dysgu yn digwydd trwy'r Gymraeg hyd at 7 oed. Trochi iaith yw ymagwedd yr ysgol at gaffael iaith o'r Meithrin. Bydd Cymraeg a Saesneg yn cael eu haddysgu o flwyddyn 3 ymlaen.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)**

Mae ein cwricwlwm ysgol yn croesawu'r canllawiau yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Bydd yn helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, yw sylfaen ACRh. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Nid oes hawl gan riant i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru.

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Canllawiau CGM

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

⇒ datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu

⇒ gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn

⇒ bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.

**Hawliau Dynol CCUHP / UNCPRD**

Bydd ein hysgol yn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP, ac o CCUHP, ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu. Canllawiau CCUHP

**Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith (GPCG)**

Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr. Canllawiau GPCG

**Adolygu a mireinio**

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyddestunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

**Curriculum for Wales summary Ysgol Gymraeg Pontardawe**

# Trysorau Tawe

Our curriculum has been co-constructed through engaging with all stakeholders and will meet the requirement set out in the framework Curriculum for Wales.

## Our School

The school was established in 1969 which offers Welsh language education to Welsh speaking families from all walks of life in Pontardawe and its surrounding area. The school has a community ethos that is happy, friendly, caring and supportive. The school's robust arrangements for listening and responding to pupils' voices mean that they influence what they want to learn and choose the resources that support them to learn to the best of their ability in the classroom and around the school.

## Our Vision

As a school we want every member of our family to receive the best education in a homely and safe environment. There is a big change in the world of education with the new curriculum and we aim to present in an accessible, exciting and informative way that develops the complete child. *'Trysorau Tawe'* is the name of our curriculum which is unique to the children of our school. A curriculum that will promote coherent, progressive and meaningful skills across all areas of learning and experience with the four purposes at the root of the work.


## Our Values

Our values guide us in our day to day life day at school. We believe in:
*honesty, courtesy and respect for others
*high expectations from everyone
*equal opportunity for all
*pride in our language, culture and local area
*self discipline
*persistence and dedication to our work



**Our inclusive curriculum**

Our curriculum will raise the aspirations of all learners. As a school we have considered how each learner will be supported to realize the four purposes and to move forward. We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners. [ALN Code]




**The statements of what matters**

Our curriculum will provide opportunities and experiences to develop the key concepts, knowledge and skills as described in the statements of what is important and in accordance with the code.

[Statements of what matters code]

**Areas of Learning and Experience**

Our curriculum will provide learning experiences through the 6 Learning and Experience Areas of:

⇒ Expressive Arts – Learners will explore art, music, drama, dance and film and digital media.


⇒ Languages, Literacy and Communication – Learners will develop Welsh, English and an international language. French, Spanish and Italian will be introduced in year 6 as a third language.


⇒ Mathematics and Numeracy – The 5 skills will guide pedagogy in the Learning Area

⇒ Science and Technology Experience – Learners will explore Biology, Physics, Chemistry, Engineering and Computer Science.


⇒ Humanities – Learners will explore History, Geography, Religious studies, Business Studies and Social Studies.

⇒ Health and Wellbeing – Learners will explore physical education, cooking, understanding emotions, understanding healthy relationships and understanding making healthy choices for a healthy lifestyle.




## Learning, Progress and Assessment




Our curriculum will support learning by designing learning opportunities that draw on the pedagogical principles.

Our curriculum, supported by effective teaching and learning, enables learners to make meaningful progress. Over time our learners will develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to progress in a particular field or discipline and how learners should deepen and expand their knowledge and understanding, their skills and abilities, and their attributes and trends, and is informed by the progression code. This in turn supports our approach to assessment, the purpose of which is to inform planning for future learning. Assessment will be an integral part of learning and teaching. The school operates an internal assessment system *'Llwybr Llwyddiant'* in order to see the progress of each learner.

All learners will be assessed on entry to the school. Coherence in Learning, Progression and Assessment will be developed through policy, long, medium and short term planning as well as mutual understanding of progression in learning across the Ystalyfera cluster schools. The Stages of Progress will be determined at the age of 5, 8, 11, 14 and 16 and will be seen in the form of learning descriptions that will broadly apply to the expectations at those times. These will help learners, teachers, parents and carers to understand if the progress being made is appropriate.




## Welsh and English

As a Welsh-medium school, learning will take place through Welsh up to the age of 7. Language immersion is the school's approach to language acquisition from the Nursery. Welsh and English will be taught from year 3 onwards.

**Relationship and Sexuality Education (RSE)**

Our school curriculum welcomes the guidelines in the RSE Code. Our Relationship and Sexuality Education provision will have a positive and empowering role in the education of our learners and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a whole school approach. It will help learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, which is the foundation of RSE. These relationships are essential to the development of emotional well-being, resilience and empathy. A parent has no right to request that a child be withdrawn from Relationship and Sexuality Education in the Curriculum for Wales.

**Religion, Values and Ethics (RVE)**

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is compulsory for all learners between the ages of 3 and 16. RVE Guidance

A parent does not have the right to apply to remove a child from CGM in the Curriculum for Wales. As CGM is a locally determined subject, the agreed syllabus sets out what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect these guidelines.

**Cross-curricular skills**

Our curriculum will develop the mandatory cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and ability in these skills and extend and apply them across all Areas. Learners will have opportunities across the curriculum to:

⇒ develop listening, reading, speaking and writing skills

⇒ be able to use numbers and solve problems in real situations

⇒ be confident users of a range of technologies to help them operate and communicate effectively and make sense of the world.

**Human Rights UNCRC / UNCPRD**

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRC, among those who provide teaching and learning. UNCRC Guidelines

**UNCRC Guidance Careers and work-related experiences (WPCG)**

Our curriculum will incorporate careers and work-related experiences for all our learners. UNCRC guidance

**Review and refine**

Our school curriculum will be continuously reviewed in order to respond to the outputs of professional inquiry, the changing needs of learners and social contexts and needs. The reviews will take into account the views of stakeholders and be approved by the Governing Body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes are made to the curriculum during the review process.

Date: July 2025 Governors: 03.07.25